GloballySusDCymru

Awst / Medi 2006

CYNNWYS

Newyddion

newyddion diweddar am ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru a'r Byd

Digwyddiadau

digwyddiadau sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy yng Nghymru a gweddill y byd, yn y ddau fis nesaf

Safbwyntiau

dau safbwynt ar ddatblygu cynaliadwy, un o Gymru, un o dramor

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'r lunio I hwyluso'r llif gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru a'r Byd.

Anfonwch e-bost globallysusdcymru@wales.gsi.gov.uk os hoffech chi:

Danysgrifio / Canslo'ch Tanysgrifiad

Cyfrannu at rifyn yn y dyfodol
(dyddiad cau 13 Fedi ar gyfer rhifyn Hydref/Tachwedd)

http://new.wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/?lang=en

– un clic am bopeth am ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru!

Mae www.cymrugynaladwy.com yn ddatblygiad cyffrous newydd ar y we i bawb ledled Cymru gael gwybod beth sy'n digwydd yn eu hardal leol o ran cynaliadwyedd. Ei swyddogaeth hanfodol yw bod yn gronfa ddata ryngweithiol o brosiectau, cynhyrchion, digwyddiadau ac arloesiadau ym maes datblygu cynaliadwy ledled Cymru.

Cynhaliwyd cam cyntaf ei lansiad, oedd wedi'i anelu at y rheiny â phrosiectau/ gweithgareddau arfaethedig y gellir eu cynnwys ar y safle, yn Sioe Frenhinol Cymru, gydag anerchiad brwdfrydig gan Tamsin Dunwoody, y Dirprwy Weinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.
Bydd lansiad mwy i'r cyhoedd yn cael ei gynnal yn yr hydref.

Ieuenctid Cymru – wrthi'n gweithio yn erbyn newid yn yr hinsawdd!

1. **Mae grŵp o fyfyrwyr o Gymru wedi ennill cystadleuaeth menter fyd eang – gan guro timau o 14 o wledydd eraill.**

Cydweithiodd chwe myfyriwr o Ogledd Cymru a dau o Dde Cymru i gynrychioli Cymru yn nigwyddiad Global Enterprise Challenge yn Glasgow. Roedd yn rhaid iddynt baratoi cynllun gweithredu i leihau gollyngiadau nwyon ty gwydr mewn dinas yn sylweddol a chryfhau'r economi dros 10 mlynedd.

Enillodd tîm Cymru y gystadleuaeth ar sail cynllun i gyflwyno cerdyn gwobrwyo i weithwyr oedd yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, sef 'Cerdyn Cymru'.

Cyflwynwyd y Wobr Fyd-eang i'r tîm gan Bill McArthur, gofodwr NASA, a ddychwelodd yn ddiweddar o Orsaf Ofod y Byd.

2. **Enillodd disgyblion o Ysgol Gynradd Bod Alaw ym Mae Colwyn gystadleuaeth genedlaethol am daith dros nos i Ynys Echni, bum milltir oddi ar arfordir Caerdydd, i ddysgu mwy am newid yn yr hinsawdd.**

Gwahoddodd WWF Cymru a Phrosiect Ynys Echni ysgolion yng Nghymru a Fiji i ddylunio baner i ddangos sut mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru ac Ynysoedd De y Môr Tawel. Nod y gystadleuaeth oedd amlygu elfennau tebyg ac elfennau gwan y ddwy ynys, yn enwedig Fiji, o ran effeithiau newid yn yr hinsawdd.

CYMRU—NEWYDDION

Penodiadau Newydd

Is-gadeirydd Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru: Peter Davies
Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yw'r corff cynghori annibynnol ar ddatblygu cynaliadwy i Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Ar hyn o bryd, mae Peter Davies OBE yn Ymgynghorydd Prosiect ac yn Gyfarwyddwr Cyswllt gyda Busnes yn y Gymuned.

Cydgysylltwyr Ardal Cynllun Gofodol Cymru:
Dai Rogers – Abertawe-Sir Benfro
Liz Lyon – Gogledd-ddwyrain Cymru
Jan Jones – Gogledd-orllewin Cymru

Cadeirydd Cynnal Cymru: Morgan Parry
Morgan Parry yw Pennaeth WWF Cymru ac mae wedi bod yn gysylltiedig â Cynnal Cymru ers iddo gael ei greu.

Camlas Trefaldwyn – cam bach a naid anferthol ymlaen

Mae'r cam diweddaraf yn y gwaith i adfer Camlas Trefaldwyn wedi'i wneud drwy agor darn 500 metr o ddyfrffordd yn Llanymynech. Mae'r cynllun hwn, sy'n werth £100,000, yn agor y darn hwn i deithwyr am y tro cyntaf ers saith deg mlynedd.

Yn gynharach eleni, lansiwyd y cynllun ar gyfer adfer Camlas Trefaldwyn yn llawn gan y Dirprwy Weinidog Tamsin Dunwoody AC yng Ngrŵp Hollbleidiol y Cynulliad ar Ddyfrffyrdd. Mae cyhoeddi'r ddogfen *Camlas Trefaldwyn: Adfywio trwy Ddatblygu Cynaliadwy* yn garreg filltir bwysig yn yr ymgyrch 40 mlynedd i adfer y gamlas, a fydd yn dod â manteision economaidd a hamdden anferthol i gymunedau lleol, tra'n diogelu cynefin pwysig.

Fframwaith Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Llywodraeth Leol – y newyddion diweddaraf

Nod y Fframwaith Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Llywodraeth Leol yw bodloni'r diffyg presennol mewn canllawiau ymarferol ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy drwy lywodraethu corfforaethol a thrwy ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol. Mae'n dangos newid tuag at hwyluso'r gwaith o gyflawni hyn: Darparu gwasanaethau mewn *ffyrdd* cynaliadwy a gweithio at *ganlyniadau* cynaliadwy.

Wrth ddarparu fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau mewn modd cynaliadwy, mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi'u nodi fel sail briodol ac o bosibl ffrwythlon ar gyfer nodi risgiau, cyfleoedd a rhwystrau i waith cyflawni mwy cynaliadwy.

CYMRU—NEWYDDION

Gwobr Werdd Flaenllaw i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ennill Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd am ei hymdrechion i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd yn ei swyddfeydd ym Mharc Cathays.

Y wobr hon yw'r orau y gall sefydliad ei hennill. Er mwyn ennill y wobr, rhaid i sefydliad ddangos ei fod yn monitro'i effaith ar yr amgylchedd ac yn gweithio i leihau effaith ei weithgareddau o ddydd i ddydd.
http://www.greendragonems.com/

Newyddion diweddaraf Cynnal Cymru

Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol

Cynhaliodd Cynnal Cymru gyfarfod blynyddol cyffredinol llwyddiannus yn Aberstwyth, lle'r etholwyd pedwar aelod bwrdd newydd, sef:

- Paul Allen (yr Amgylchedd)
- Margaret Minhinnick (yr Economi)
- Ken Peattie (yr Economi)
- Catherine Hester (Cymdeithasol)

Hefyd, cyhoeddwyd elfen newydd o'r gwaith 'I'r Gad' – sef creu Gweledigaeth o Gymru Gynaliadwy.

Bodloni'r prinder o weithwyr adeiladu crefftus yng Nghymru

Bydd Canolfan Sgiliau arloesol newydd ym Maesteg yn cynorthwyo i fodloni'r prinder o weithwyr a chrefftwyr adeiladu crefftus yng Nghymru – yn ogystal â helpu cymunedau lleol i fanteisio'n llawn ar drosglwyddiad stoc cyntaf Cymru o dai cymdeithasol ar raddfa eang.

ROUNDED DEVELOPMENTS ENTERPRISES LIMITED

Rounded Developments Enterprises – Canolfan Adeiladu Cynaliadwy yng Nghaerdydd

Mae Canolfan Adeiladu Cynaliadwy wedi cael ei chreu gan Rounded Developments Enterprises yn y Sblot, Caerdydd, er mwyn rhoi'r cyfle i sefydliadau gwirfoddol ac eraill ymchwilio i faes adeiladu cynaliadwy mewn modd ymarferol.

Mae gan y ganolfan ystod eang o wybodaeth ac arddangosiadau sy'n cwmpasu agweddu fel arbed dŵr ac ynni, cynhyrchu ynni, deunyddiau mewnol, strwythur a deunyddiadu adeiladau.
http://www.rounded-developments.org.uk/

CYMRU—NEWYDDION

Prosiectau Cymunedol newydd…

*Mae buddsoddiad o £2.4 miliwn wedi trawsnewid **Canolfan Soar yn Rhondda** yn ganolfan gymdeithasol a chelfyddydau cymunedol gyfoes. Bydd Plant y Cymoedd, sef elusen leol, yn darparu ystod o wasanaethau i'r gymuned leol, o ofal plant i hyfforddiant cyfrifiadurol, o brosiect moduron i weithgareddau diwylliannol.

*Mae cyfleuster mawr newydd, a fydd yn cynnig llawer o wasanaethau pwysig i'r gymuned yn Nghwm Tawe, wedi agor yn ddiweddar. Mae **Adeilad Adnoddau Forge Fach yng Ngraigfelen**, Clydach, sy'n werth £1.8 miliwn, yn cynnwys caffi cymunedol, cyfleusterau TG, darpariaeth gofal plant, canolfan dreftadaeth, unedau gweithdy, swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod a chanolfan byw'n iach.

Gallai'r arweinlyfr newydd ar CD-ROM helpu swyddfeydd yng Nghymru i arbed £180 miliwn

Gall busnesau yng Nghymru gymryd cam mawr tuag at gwtogi gwastraff swyddfa ac arbed arian – drwy ddefnyddio arweinlyfr am ddim ar CD-ROM sydd ar gael gan Envirowise.

Mae'r CD-ROM Green Officiency yn cynnig canllaw cam wrth gam i helpu busnesau swyddfa i leihau gwastraff a'r defnydd o adnoddau cyffredin fel papur, dŵr ac ynni. Mae cyfrifydd arbedion yn pennu faint yn union y gallai cwmni unigol ei arbed – gallai hyn fod gymaint â £200 y gweithiwr.

Felly os bydd pob swyddfa yng Nghymru yn manteisio ar yr arweinlyfr ac yn gwella effeithlonrwydd eu hadnoddau, gallai'r wlad gyfan arbed y swm trawiadol o £180 miliwn.
http://www.envirowise.gov.uk/page.aspx?o=178388

Gweinidog yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg yn Ewrop

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi galw i'r Gymraeg gael ei defnyddio yn sefydliadau Ewrop, yn dilyn y penderfyniad a wnaed gan Weinidogion Materion Tramor yr UE i roi'r posibilrwydd i ddinasyddion ddefnyddio ieithoedd ychwanegol yn eu trafodion â sefydliadau'r UE.

Meddai Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: "Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen. Mae'r Gymraeg yn un o ieithoedd hynaf Ewrop felly mae'n iawn fod dinasyddion yng Nghymru yn gallu gohebu â'r UE yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd cenedlaethol, a bod modd defnyddio'r iaith honno ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ac yn y Cyngor.

CYMRU—NEWYDDION

'The Governance of Sustainable Development in Wales'

Mae Dr Paul Williams, Uwch-ddarlithydd yn Ysgol Reolaeth Caerdydd, wedi cyhoeddi'r papur hwn yn ddiweddar.

I gael copi, anfonwch e-bost at pmwilliams@uwic.ac.uk

Cyrsiau rhan amser newydd mewn Astudiaethau Rhyngwladol

O fis Hydref 2006 ymlaen, bydd amrywiaeth o gyrsiau rhan amser mewn astudiaethau rhyngwladol yn cael eu cynnig gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth, gan gynnwys Globaleiddio, Cynaliadwyedd a Cyfathrebu Materion Rhyngwladol.

Am fwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at hhh@aber.ac.uk neu ffoniwch Del ar 01970 621 762.

Cymru – Gwlad Masnach Deg gyntaf y byd??

Mae pethau'n dechrau poethi yn y ras i fod y wlad Masnach Deg gyntaf yn y byd. Gwnaeth Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, a Jack O'Connell, Prif Weindiog yr Alban, gytundeb ar y cyd y mis hwn i ddweud bod meini prawf ar gyfer Cenedl Masnach Deg wedi'u cytuno rhwng y ddwy wlad, gan gynnwys:

- Bod gan bob sir grŵp gweithredol Masnach Deg
- Bod gan 55% o drefi grŵp gweithredol Masnach Deg
- Ymrwymiadau gan y Llywodraeth a'r Senedd
- Cefnogaeth weithredol i Fasnach Deg gan lawer o sectorau yn y gymdeithas, gan gynnwys ysgolion, addysg uwch, busnes a'r sector gwirfoddol.

Mae bellach yn hanfodol i bobl Cymru gefnogi'r ymgyrch. I gael cyngor ar sut i gyflwyno Masnach Teg yn eich tref, eich sir neu eich gweithle, ewch i http://www.gwe.nu/fairtrade/ neu cysylltwch â Mark Richardson ar 07766 015664 / walesfairtrade@btconnect.com.

Gweinidogion yn helpu i Gadw Cymru'n Daclus

Ar 27 Mehefin, aeth Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, i Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, Caerdydd, fel rhan o'r fenter 'Wythnos Cymru Daclus' a oedd yn cynnwys dros 40,000 o gyfranogwyr yn ystod wythnos o godi sbwriel, glanhau traethau a glanhau mannau anharddwch, er mwyn sicrhau "Cymru fwy glân, taclus a diogel".

Ar y raddfa hon, ni ddylai fod yn hir nes i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf chwifio'u Baner Werdd Eco-Ysgolion â balchder, ac ymuno â'r nifer gynyddol (dros 150) o ysgolion yng Nghymru sydd wedi cael cydnabyddiaeth rynglwadol am eu dull gweithredu cyffredinol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

CYMRU—NEWYDDION

Gwneud Eryri yn Fwy Gwyrdd

Mae twristiaeth yn Eryri ar fin dod yn fwy cynaliadwy, diolch i brosiect newydd sy'n cael ei arwain gan yr elusen Cymdeithas Eryri.

“Bob blwyddyn, ceir cyfwerth â thros 11 miliwn o ymweliadau dydd yn Eryri - sef y Parc Cenedlaethol hynaf a mwyaf yng Nghymru, gan gyfrannu'r swm anferthol o £385m i'r economi leol bob blwyddyn“, meddai Dan James, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cymdeithas Eryri. “Fodd bynnag, mae cost i hyn oni chaiff yr ymweliadau eu rheoli'n ofalus – mae 10% o ôl-troed ecolegol Gwynedd yn deillio o dwristiaeth ac rydym mewn perygl o golli'r rhinweddau sy'n gwneud Eryri'n lle mor arbennig!

Bydd y prosiect yn cynnwys cwblhau gwefan newydd yn dangos y manteision a geir drwy fynd i'r afael â chysyniadau Cynaliadwyedd mewn twristiaeth a bydd yn cynnig syniadau ymarferol i ymwelwyr a darparwyr fod yn fwy gwyrdd ynghylch eu pethau.

RHYNGWLADOL—NEWYDDION

Strategaeth UE newydd

Mabwysiadodd Arweinwyr y Gwaldwriaethau Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE (EU SDS) yn derfynol yng nghyfarfod Cyngor yr UE ym mis Mehefin.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi croesawu'r cyfeiriad at y rôl bwysig y bydd rhanbarthau'n ei chwarae o ran cyflwyno'r Strategaeth ac mae'n edrych ymlaen at adeiladu ar lwyddiant blaenorol gyda rhanbarthau eraill yn Ewrop. Mae gan y Strategaeth bwyslais cryf ar faterion trawsbynciol sy'n cyfrannu at y gymdeithas wybodaeth, offerynnau ariannol a chyfathrebu, ond mae'r prif gorff yn nodi saith her allweddol sy'n cynnwys targedau, amcanion a chamau gweithredu ar:

- Newid yn yr hinsawdd ac ynni glân
- Trafnidiaeth gynaliadwy
- Treuliant a chynhyrchiant cynaliadwy
- Arbed a rheoli adnoddau naturiol
- Iechyd y cyhoedd
- Cynhwysiant cymdeithasol, demograffeg ac ymfudiad
- Tlodi byd-eang a heriau datblygu cynaliadwy

http://register.consilium.europa.eu/pdf/en/06/st10/st10117.en06.pdf

RHYNGWLADOL—NEWYDDION

Arolwg Newydd – does dim angen gwneud niwed i'r byd i fod yn hapus

Mae "Mynegai Planed Hapus", sy'n cynnwys gwybodaeth o 178 o wledydd ac sy'n cael ei grynhoi gan New Economics Foundation (NEF), yn nodi mai ynys Vanuatu yn ne'r Môr Tawel yw'r wlad fwyaf hapus ar y blaned, tra bod y DU yn safle 108.

Mae'r mynegai yn seiliedig ar lefelau treuliant, disgwyliad oes a hapusrwydd, yn hytrach na mesuriadau cyfoeth economaidd gwladol fel CMC. Mae NEF yn galw am "faniffesto byd-eang ar gyfer planed hapusach" a fydd yn rhestru ffyrdd y gall gwledydd fyw o fewn eu cyfyngiadau amgylcheddol a gwella ansawdd byw pobl. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

* Cael gwared ar dlodi a newyn eithafol
* Cynabod cyfraniad unigolion a gwaith di-dâl
* Sicrhau bod polisïau economaidd yn cadw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol

http://news.bbc.co.uk/1/hi/sci/tech/5169448.stm

Wolfowitz yn creu uned datblygu cynaliadwy newydd

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Paul Wolfowitz, Llywydd Banc y Byd, y byddai adrannau'r Banc sy'n delio â phrosiectau seilwaith a phrosiectau amgylcheddol yn cael eu huno'n uned sengl i hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

"Diben cyfuno'r ddau rwydwaith yw prif ffrydio materion amgylcheddol, gwella synergeddau, integreiddio gweithrediadau craidd yn well, a sicrhau ein bod yn cryfhau'n ffocws ar gynaliadwyedd wrth i ni gynyddu ein buddsoddiad mewn seilwaith," meddai Wolfowitz mewn e-bost i staff Banc y Byd, a welwyd gan Reuters.

http://www.sustdev.org/index.php?option=com_content&task=view&id=1358&Itemid=35

Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn galw am fwy o drethi gwyrdd a threthi gwell

Mae adroddiad newydd ar gyfer y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn nodi bod potensial mawr i lywodraethau gyflwyno mwy o drethi amgylcheddol.

Caiff trethi a thaliadau amgylcheddol eu defnyddio'n helaeth yng nglwedydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ond mae rhai ohonynt wedi colli eu hatyniad dros y blynyddoedd diwethaf. Yn yr UE er enghraifft, dengys y data diweddaraf eu bod yn gostwng fel cyfran CMC a threthu cyffredinol (EED 23/05/06). Mae adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn trafod sut gellir goresgyn "rhwystrau" o ran eu defnyddio. Un pryder cyffredinol yw y bydd trethi gwyrdd yn effeithiol ar allu diwydiant i gystadlu. Mae'r adroddiad yn nodi bod y 375 o drethi amgylcheddol a nodir yn fras gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn cynnwys mwy na 1,150 o eithriadau neu ad-daliadau a fwriedir i ddiogelu sectorau penodol.

http://www.sustdev.org/index.php?option=content&task=view&id=1386

RHYNGWLADOL—NEWYDDION

Sioe Foduron Ryngwladol Prydain – diwydiant yn dangos ei rinweddau gwyrdd

Mae gwneuthurwyr cerbydau wedi buddsoddi miliynau i wella rhinweddau gwyrdd eu cynhyrchion a'u safleoedd gweithgynhyrchu yn Sioe Foduron Ryngwladol Prydain eleni.

Mae enghreifftiau o geir a thechnolegau mwy gwyrdd oedd yn cael eu harddangos yn cynnwys:

- ceir cwbl drydan
- diesel glanach
- ceir tanwydd hyblyg
- modelau hybrid/moduron trydanol

Hefyd defnyddiodd y diwydiant moduron y sioe i ddosbarthu copïau am ddim o'i lyfryn Drive Green, Drive Safely, sef canllaw i eco yrru a gyrru mwy diogel.

http://www.britishmotorshow.co.uk/content.asp?PageID=291

Gwobrau Ynni Gwyrdd blaenllaw y byd

Mae Gwobrau Ashden, cynllun gwobrau ynni gwyrdd mwyaf blaenllaw y byd, yn gwobrwyo prosiectau rhagorol ac arloesol sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwella ansawdd byw drwy gynhyrchu ynni cynaliadwy ar lefel leol.

Enillwyr rhyngwladol y wobr gyntaf oedd:

TANZANIA – Mwanda Rural Housing Programme

INDIA – International Development Enterprises India

MECSICO – Grupo Interdisciplinario de Tecnología Rural Apropriada

INDIA – Appropriate Technology Institute

BANGLADESH - Grameen Shakti a Rahimafrooz Batteries Limited (ar y cyd)

Am fwy o fanylion - http://www.sustdev.org/index.php?option=content&task=view&id=1356

Marchnadfa Anferthol Ecoledol Chwyldroadol yn Efrog Newydd

Mae datblygwyr wedi addo y bydd y datblygiad adloniant a siopa arfaethedig hwn, a fydd werth biliynau o ddoleri, sef DestiNY USA, yn cael ei redeg yn llwyr ar dyrbinau gwynt, panelau solar, celloedd tanwydd a biodanwyddau, tra'n gwasanaethu fel model ar gyfer ffordd lân o fyw a siopa gwyrdd. Dyma fyddai'r datblygiad eiddo tiriog gwyrdd mwyaf yn y byd hyd yn hyn.

Mae'r datblygwr Robert Congel wedi darogan y gallai'r prosiect gyflymu arbedion maint i'r pwynt lle byddai pris ynni adnewyddadwy yn gystadleuol o ran cost o'i gymharu ag ynni ffosil o fewn cyn lleied â deng mlynedd. Mae'n galw'r datblygiad arfaethedig yn “Brosiect Apollo” ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan fynnu y bydd yn rhoi hwb i'r economi, yn cryfhau diogelwch cenedlaethol drwy leihau dibyniaeth ar ffynonellau olew tramor, ac yn diogelu'r amgylchedd.

http://www.emagazine.com/view/?3207

CYMRU—DIGWYDDIADAU

Cydgysylltwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru – cyfarfod blynyddol cyffredinol a digwyddiad yn edrych ar rôl economeg mewn Datblygu Cynaliadwy

Pryd? 4 – 5 Medi

Ble? Brynbuga

Disgrifiad

Siaradwyr yn cynnwys Jonathan Porritt CBE a chynrychiolydd o New Economics Foundation.

Penny.gruffydd@swansea.gov.uk

Grwp Cynghori Bioamrywiaeth Lleol

Pryd? 6 – 7 Medi 2006

Ble? Caerdydd

Disgrifiad

Thema'r Diwrnod Cyntaf – Ehangu Cefnogaeth, deall yr hyn mae'n ei olygu

Thema'r Ail Ddiwrnod – Offer i'n helpu

g.ainscough@ccw.gov.uk

Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy – Diwrnod Newid yn yr Hinsawdd

Pryd? 29 Medi 2006

Ble? Bangor

Disgrifiad

Bydd y digwyddiad hwn yn cynnwys pobl ifanc o ysgolion lleol a grwpiau ieuenctid yn ymchwilio i'r effaith y caiff eu ffyrdd o fyw ar y blaned, a'r hyn y gallant ei newid er gwell, mewn amrywiaeth o ffyrdd llawn dychymyg.

info@wyfsd.org

Cynhadledd Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang y Pedair Cenedl

Pryd? 18 – 19 Medi

Ble? Caerdydd

Disgrifiad

Bydd y digwyddiad hwn, a fydd drwy wahoddiad yn unig, yn gyfle i gynrychiolwyr o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod yn dyst i ymrwymiad Cymru i hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn Addysg.

Yr Arddangosfa a'r Gynhadledd Dechnoleg

Pryd? 3 Hydref 2006

Ble? Caerdydd

Disgrifiad

Nod y digwyddiad hwn yw hybu proffil y rheiny sydd o ddifrif am fod yn rhan o'r farchnad technoleg ac arloesi a dangos a gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau arloesol i gynulleidfa ddethol o Gymru a'r DU.

http://www.innovation-wales.com/iw06.htm

Prydau ysgol – ar y ffordd i Gynaliadwyedd?

Pryd? 6 Hydref 2006

Ble? Caerdydd

Disgrifiad

Diwrnod o gyflwyniadau a gweithdai, gan dynnu ynghyd yr holl bartïon (darparwyr, cyflenwyr, athrawon, rhieni, disgyblion, llunwyr polisi, deietegwyr ac academyddion) sy'n poeni am wella maetheg a chynaliadwyedd prydau ysgol.

http://www.brass.cf.ac.uk/uploads/School_Meals.pdf

RHYNGWLADOL—DIGWYDDIADAU

O theori a chynllunio i ddatblygu – trawsnewid dinas i eco-ddinas

Pryd? 5 – 12 Awst 2006
Ble? Bangalore, India
Disgrifiad
Mae'r pynciau i'w trafod yn cynnwys:

- cynllunio a rhoi ar waith eco-ddinas drwy systemau cyfan
- arferion gorau ac astudiaethau achos o bob cwr o'r byd
- adleoli economïau

http://www.tciconferences.com/ecocity2006/ecocity2006.htm

Cynhadledd fyd-eang ar ddulliau gweithredu ar ynni adnewyddadwy ar gyfer rhanbarthau anialwch

Pryd? 18 – 22 Medi 2006
Ble? Amman, Gwlad yr Iorddonen
Disgrifiad
Bydd y gynhadledd hon yn cyflwyno ystod o wybodaeth ynghylch datblygu ynni gwynt, solar, bio-màs a daearwresol mewn rhanbarthau anialwch.
gcreader@ju.edu.jo

Gweithdy ar Brosiect Rhoi REACH ar waith – Datblygu Canllawiau REACH ar gyfer Diwydiant

Pryd? 25 Medi 2006
Ble? Brwsel, Gwlad Belg
Disgrifiad
Mae Cyfarwyddiaethau'r Comisiwn Ewropeaidd, sef Menter a Diwydiant Cyffredinol, yr Amgylchedd a'r Ganolfan Ymchwil, yn trefnu'r gweithdy hwn ar gynnydd Prosiectau Rhoi REACH ar Waith, gyda pherthnasedd penodol i randdeiliaid diwydiant.
http://ec.europa.eu/enterprise/reach/prep_guidance_en.htm#w

---

ec06

Pryd? 9 – 10 Hydref 2006
Ble? Zurich, y Swistir
Disgrifiad
Mae ec06 yn ymwneud â dod â phobl ddeallus a chyffrous at ei gilydd; addysgu pobl; esgor ar syniadau newydd; herio safbwyntiau ac achosi newid.
Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- Buddsoddi sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol (SRI) – dim ond cynllwyn marchnata arall?
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) – gwir neu gau?
- SRI, CSR – ai mythau ydynt neu a ydynt yn cynnig gwerth?

http://06.economie.co.uk/index.htm

‘Rôl yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau o ran cynaliadwyedd a dylunio’

Ian Roberts, Hyrwyddwr Dylunio yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau, rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau wedi ymrwymo'n llwyr i nodau cynaliadwyedd. Rydym wedi nodi ein disgwyliadau ar gyfer cynaliadwyedd ac ansawdd dylunio ar gyfer yr holl brosiectau adfywio a datblygu yr ydym yn eu cefnogi ac ar dir rydym yn ei werthu.

Mae'r adran yn gweithio ar amrywiaeth mawr o brosiectau o bob cwr o Gymru. Maent yn amrywio o ddelio ag estyniadau ffatrïoedd bach neu fân ddatblygiadau mewn trefi bach a phentrefi, i waith adfer tir eang a chymhleth a phrosiectau adfywio trefol a allai gymryd sawl cam i'w troi'n ddatblygiadau trefol cynaliadwy.

Nid ydym yn gweld yr angen am adeiladau cynaliadwy yn unig, ond yn hytrach rydym yn ceisio ymgorffori nodau ehangach cynaliadwyedd ac adfywio economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cynnig effeithlonrwydd o ran ynni ac adnoddau. Nid oes diben cael adeilad amgylchedddol ragorol os yw yn y lle anghywir, nid yw'n cynnig y math o ofod gofynnol neu'n lle sy'n wag bob nos pan fydd y gweithlu'n gyrru i'w cartrefi a leolir filltiroedd i ffwrdd. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein cymunedau'n llawn bywyd ac yn iach, gydag ymdeimlad o les, ac yn lleoedd lle rydym eisiau bod. Nid lleoedd rydym yn sownd ynddynt gan ein bod yn digwydd byw yno.

Mae'n ofynnol bod ein holl brosiectau'n cyflawni BREEAM a gradd Da Iawn Eco-gartrefi ar gyfer adeiladau masnachol a phrosiectau preswyl, a'r radd ragorol ar gyfer prosiectau tir llwyd a phrosiectau gwerth uchel. Mae'r angen ehangach am effeithlonrwydd ynni ac adnoddau hefyd yn hollbwysig, ac rydym yn nodi ein gofynion yn y ddogfen Creu Lleoedd Cynaliadwy, a geir ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.
http://new.wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/sustainable_development_publicat/;jsessionid=E3076A123B8FE74CC16A0AFB8E818085.www1?lang=cy

Er mwyn sicrhau y cyflawnir datblygiadau o ansawdd uchel, rydym yn paratoi prif gynlluniau ar gyfer y prif safleoedd er mwyn nodi'r ffordd ar gyfer sicrhau y caiff ein gweledigaeth ei chyflawni. Mae llawer o'r rhain wedi'u paratoi eisoes ar gyfer safleoedd fel Coed Darsi yng Nghastell-nedd, Glasdir yn Rhuthun a Pharc Derwen ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae llawer o rai eraill yn cael eu llunio hefyd.

Ian.roberts@wales.gsi.gov.uk

Y Parchedig Renis Morian, Fruits of Calvary Assembly of God Church, Guyana

Dyma Renis Morian, cydlynydd [gwirfoddol] ar gyfer y corff anllywodraethol ffydd, DEPTRAD. Tref bocsit yw Lindon. Mae pob busnes neu raglen yn gysylltiedig â'r diwydiant hwn, a dyma i bob pwrpas yw ein henaid. Dechreuodd y diwydiant hwn ddirywio'n gyflym tua deng mlynedd yn ôl, gan newid o fod â gweithlu o 4500 i ddwy fil yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Mae/roedd 1000 arall yno'n anuniongyrchol yr holl amser. Trodd rhai ohonynt at dorri a thrin coed, pysgota ac amaethyddiaeth ond ni fu'r un dwyster a buddsoddiad ariannol â'r sector bocsit. Yn 2006, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r diwydiant yn cau'n llwyr. Gallwch ddychmygu'r panig a'r ansicrwydd yma.

Mae DEPTRAD wedi cyflwyno prosiect syml o dan y thema "bywoliaeth gynaliadwy a digonol i bawb"
Nod y prosiect ei hun yw annog, addysgu a chynorthwyo'r rheiny a effeithiwyd fwyaf i wneud gwaith garddio fel ffordd o fod yn gynaliadwy. 2000 o aelwydydd yw ein targed. Bydd hadau a hadblanhigion yn cael eu darparu, ynghyd â gwasanaethau swyddog amaethyddiaeth. Rydym yn gobeithio annog cyfnewid syml rhwng cymdogion, felly'n annog amrywiaeth ehangach o ffrwythau a llysiau i'r trigolion ar y rhaglen.

Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn y camau olaf cyn lansio'r prosiect. Yr amcan yw galluogi trigolion i symud o fod yn ddibynnol ar gymorth i fod yn hunangynhaliol. Rydym yn edrych ar weithgareddau micro eraill i gefnogi mamau a'r rheiny sydd wedi'u heffeithio gan aids. Er enghraifft, magu ieir creole, pysgota mewndirol a thyfu granadila ar gyfer marchnadoedd y tu allan i'r rhanbarth.

Rydym yn croesawu cymorth ffynonellau rhyngwladol ar ffurf hadau gerddi i'r trofannau etc.

moriman53@yahoo.com